

PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023

PRESENNOL: Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Margaret M Roberts

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned

Mr Gordon Warren

Aelodau Annibynnol

Dr Teleri M Jones

WRTH LAW: Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgorau (SC)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Aled M Jones

1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr agenda. Dywedodd ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr, gan ei fod wedi bod yn aelod o Gyngor lechyd Cymuned gydag ef.

2. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2023 yn gywir.

3. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

4. CYNNAL CYFWELIADAU AR GYFER Y RÔL AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd- adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/

Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer y swydd wag Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Croesawodd y Cadeirydd bob ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwynodd y Panel. Rhoddodd drosolwg o'r rôl Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i bob ymgeisydd ac eglurodd y broses benodi.

Ystyriwyd yr ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf yn yr adroddiad, a chynhaliwyd cyfweiliadau gan y Panel.

Gan fod un o'r ymgeiswyr a oedd wedi cyrraedd y rhestr fer methu â bod yn bresennol am resymau personol, trafododd a chytunodd y Panel i gyfweld yr ymgeisydd ryw bryd eto.

PENDERFYNWYD y bydd y Panel Dethol yn cyfarfod eto i gyfweld yr ymgeisydd dan sylw ac i benodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau. Dyddiad ac amser i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40 pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**